

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 7fed o Ebrill 2022.

- 1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans - Prenteg, Richard Parry Edward Evans - Bryncir, Clifford Williams John Jones Michael Jones - Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams Golan, Huw Pritchard Delyth Evans - Pentrefelin, Dafydd Thomas* Gwenno Emlyn Huws Iddon Edwards - Penmorfa. Cyngorydd Stephen Churchman, Cyngorydd Alwyn Gruffydd*.
- 2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys (dim mynediad i offer TG, cyswllt rheolaidd ar y ffôn), Amanda N Owen, Manon Jones Evans.

*Cafodd y Cyngorydd Dafydd Thomas a'r Cyngorydd Alwyn Gruffydd drafferthion gyda'r rhyngwyd.
- 3 **Ddim yn bresennol** - neb.
- 4 **Datgan buddiant** - Cyngorydd Richard Williams - eitem 7.
- 5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** - Cofnodion 3/3/22 Michael Jones yn cynnig ei bod yn gywir a Megan Lloyd Williams yn eilio.
- 6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion**

Prenteg

Mynwent Prenteg - pridd wedi ei glirio.

Materion Priffyrdd

Golan - man parcio uwchlaw Clennau dŵr yn codi o'r tarmac ac yn cronni o dan y bont. Adroddwyd fod Dŵr Cymru wedi hysbysu Cyngor Gwynedd nad yw'r beipen yn gollwng. Archwiliwr Priffyrdd am fonitro'r sefyllfa.

Prenteg - paentio'r llinell wen ar y lôn. Gwaith wedi ei gwblhau.

Garndolbenmaen

Uwchraddio un golau stryd.

Arwydd 'Araf'.
Heb dderbyn ateb.

Cwmystradllyn

Ysbwriel Cae Eithin Tew - heb dderbyn ateb.

Problem Baw Cŵn Llyn Cwmystradllyn - cysylltwyd gyda Dŵr Cymru a chafwyd wybod nad yw'n arferol iddynt osod biniau wrth ei chronfeydd a'u llynnoedd. Roedd aelod o'r staff wedi gwirfoddoli i gymryd cyfrifoldeb am wagio'r bin wrth y llyn. Wedi ymddeoliad y person hwn, nid oes neb arall yn fodlon gwneud y gwaith. Gofynnwyd i'r Clwb Pysgota gymryd cyfrifoldeb, ond maent wedi gwrthod. Mae Dŵr Cymru mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd i weld a fyddant yn fodlon cymryd perchnogaeth o'r bin.

Mynwent Bethel - gwaith atgyweirio bedd heb ei gwblhau. Clerc i gysylltu gyda'r Brodyr Kerrs.

Hwb Eifionydd - derbyniwyd ateb gan Mabon ap Gwynfor AS yn nodi ei fod am ysgrifennu at Jo Whitehead, Prif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, i godi'r materion mae'r Cyngor Cymuned yn pryderu amdanynt.

Holodd hefyd oedd pryderon wedi codi yn y gymuned yn ymwneud â diffyg cyswllt trafniadaeth gyhoeddus ddigonol i Griccieth. Nodwyd fod diffyg cyswllt yn ardaloedd Golan, Penmorfa a Pentrefelin. Adroddodd y Cyngorydd Stephen Churchman ei fod wedi cysylltu gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r ddarpariaeth trafniadaeth. Cafwyd ymateb fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu gwasanaethau bus yn ystod 2023.

Derbyniwyd ateb gan Hwb Eifionydd yn hysbysu'r Cyngor Cymuned fod meddygon wedi gweithio 351.50 o oriau yn adeilad Porthmadog a 452 o oriau yn adeilad Criccieth yn ystod mis Ionawr.

Mae Cyngor Tref Porthmadog am ysgrifennu at Adran Gwynion GIG i gwyno am ddarpariaeth Hwb Eifionydd.

Mae Cyngor Tref Criccieth yn trafod y mater yng nghyfarfod mis Ebrill.

Mae Cyngor Cymuned Llanystumdwy wedi cysylltu gyda Hwb Eifionydd i gwyno nad oes meddygon sefydlog yng Nghriccieth, yr angen am fferyllfa gymunedol a bod gwefan y feddygfa heb ei ddiweddarau.

Llwybrau Cyhoeddus

Cynhaliwyd cyfarfod safle gyda swyddogion o'r Adran Hawliau Tramwy mewn 2 leoliad.

Llwybr Hendregadredd Pentrefelin - gall codi ac ail osod y llechi greu problem arall. Gall ail gyfeirio'r llwybr i'r cae cyfagos greu oblygiadau cyfreithiol i berchennog y tir. Penderfynwyd cysylltu gyda'r Uwch Swyddog Hawliau Tramwy ac awgrymu fod y cerddwyr yn defnyddio'r llwybr cyhoeddus sy'n mynd i fyny'r lôn at yr eiddo a bod y giat yn cael ei gloi.

Ty'n Ffridd - Ffridd Newydd, Garndolbenmaen - gosod giât newydd un pen i'r llwybr a thorri ychydig ar yr eithin.

Gwasanaeth Tân

Derbyniwyd ateb gan y Gwasanaeth Tân i bryderon y Cyngor Cymuned am effeithlonrwydd y gwasanaeth i'r ardaloedd gwledig o amgylch Porthmadog. Holwyd hefyd beth oedd ei cynlluniau ar gyfer yr ardal.

Cafwyd wybod bod criw Gorsaf Dân Porthmadog wedi cyrraedd y digwyddiad o fewn 8 munud i'r galwad gwreiddiol. Aeth y criw i gefn yr adeilad drwy'r lôn gefn wrth yr Eglwys Santes Fair.

Mae'r Gwasanaeth Tân yn cael trafferthion denu personél newydd. Yn ddiweddar, cynhaliwyd diwrnod agored yng Ngorsaf Dân Porthmadog i geisio recriwtio mwy o staff. Ni chafwyd ymateb da iawn i'r digwyddiad. O fis Ebrill 2022, bydd aelod o staff yn cymryd cyfrifoldeb am recriwtio yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Gobeithir y bydd hyn o gymorth i ddenu a chadw personél.

7 Mynwentydd -

Mynwent Prenteg - Angen tynnu coeden all greu difrod i'r beddau petai'n disgyn. Cadeirydd am holi am bris i wneud y gwaith.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Llwybr Garndolbenmaen trwy Tyddyn Du i Glandwyfach - Perchennog wedi agor ffoes.

Pant Ifan i Dremadog - Giât ar ben y llwybr ddim yn agor. Uwch Swyddog Hawliau Tramwy am gael cyfarfod gyda Pharc Cenedlaethol Eryri.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Garndolbenmaen

Gwaith ar dai Bro Gwgan wedi ei gwblhau. Clerc i ddiolch i Grŵp Cynefin.

10 **Cyflwyniad gan David Merfyn Griffith, Arolygwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor, Cyngor Gwynedd**

Croesawyd David Merfyn Griffith i'r cyfarfod.

Eglurodd y broses sy'n cael ei ddilyn wrth osod arwyddion pan fo angen cau ffordd a dargyfeirio traffig oherwydd gwaith cynnal a chadw neu mewn argyfwng. Cyfrifoldeb y Contractwr sy'n gwneud y gwaith yw penderfynu ar y ffordd arall i gymryd. Mae Cyngor Gwynedd yn gwirio hyn,

Cafodd y Cynghorwyr gyfle i drafod achosion ble mae'r arwyddion wedi bod yn anghywir a rhoi awgrymiadau ar sut i sicrhau fod y cyfarwyddiadau yn gliriach.

11 **Mapiau OS**

Ymddengys fod llawer o gamgymeriadau yn y mapiau newydd. Mae peryg y bydd rhai enwau lleoedd yn cael ei golli. Clerc i gysylltu gyda'r OS i dynnu ei sylw at hyn.

12 **Gyfyng Cwm Pennant**

Mae perchennog Gyfyng wedi gwneud cais am dystysgrif gan y Clwb Gwersylla Gwyrddach i osod 5 o bebyll ar ei dir. Mae dystysgrif gan y sefydliad yma yn galluogi perchnogion tir i redeg meysydd pebyll bach yn gyfreithiol heb gael caniatâd cynllunio.

Yng nghyfarfod mis Hydref 2021 mynegwyd pryder fod man gwan yn y ddeddfwriaeth cynllunio, sef, ei bod yn bosib cael tystysgrif eithrio, os nad oes adeiladau parhaol ar y safle gweryslla. Penderfynwyd cysylltu gyda Mabon ap Gwynfor i ofyn am ei gymorth i gau'r man gwan yn y ddeddfwriaeth bresennol.

Ym mis Mawrth cysylltodd y Clwb Gwersylla Gwyrddach gyda rhai o drigolion Cwm Pennant i'w hysbysu fod perchennog Gyfyng wedi gwneud cais am drwydded eithrio. Derbyniodd Parc Cenedlaethol lythyr ganddynt hefyd.

Mae'r Clwb Gwersylla Gwyrddach wedi derbyn llythyrau yn gwrthwynebu'r datblygiad gan y trigolion cyfagos a gan Barc Cenedlaethol Eryri.

13 **Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Penderfynwyd trafod ym mis Mai.

14 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd - Adran Priffyrdd Rhaglen Waith mis Ebrill. Ardal Ni 2035.

Gohebiaeth ychwanegol

- a Unllais Cymru - Hyfforddiant mis Ebrill.
- b Pared Dewi Sant.
- c Cylch yr Iaith - Enwau Lleoedd Cymru. Penderfynwyd cefnogi'r cais drwy ysgrifennu at Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg.
- ch Cyngor Celfyddydau Cymru - Noson Allan. Rhannu gyda Neuaddau Garndolbenmaen a Penmorfa.
- d Coedwig Genedlaethol i Gymru - Newyddion.
- dd Cyngor Iechyd Cymru - Corff Gwarchod Iechyd yn tynnu sylw at effaith COFID ar brofiadau plant o wasanaethau therapy iaith a lleferydd.
- e Llywodraeth Cymru - Y Strategaeth Gweithio o Bell: Yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer Polisi Gweithio o Bell.
- ff Llythyrau diolch rhoddion ariannol - Neuadd Garndolbenmaen, Canolfan Pentrefelin, Canolfan Golan, Neuadd Penmorfa, Cyfeillion Ysgol y Gorlan, Elusen Ambiwlans Awyr Cymru, Pwyllgor Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd.

15 **Cynllunio**

Rhestrau - 4/3, 11/3, 18/3, 25/3/22.

Ceisiadau Cynllunio

16 Materion Ariannol

Ceisiadau am arian: -

Monitro'r Gyllideb: dim gorwariant.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	= £	253.33
Ffôn	= £	10.00
Cyfrifiadur	= £	15.00
HMRC	= £	63.20
Aelodaeth Unllais Cymru	= £	232.00
Y Ffynnon	= £	70.00
Cambrian News	= £	164.16
Costau banc 6/2/22 - 5/3/22	= £	20.00

Derbyniadau

Cyngor Gwynedd Ad-daliad Llwybrau Cyhoeddus	= £	886.00
Pritchard & Griffiths	= £	220.00
I M Hughes	= £	110.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,846.01 Cyfredol £6,477.36

17 Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan

- Cyflwyniad Arolygwr Gwaith Gofal a Stryd Dwyfor Cyngor Gwynedd;
- Hwb Eifionydd;
- Llyn Cwmystradllyn - baw ci;
- Mapiau OS;
- Gwasanaeth Tân;
- Binau ail-gylchu o Fynwent Bethel at y lôn fawr;
- Gyfyng;
- Cylch yr Iaith.

Gwefan: Cofnodion mis Mawrth.